*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt**:** Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ac Ymgysylltu (07385401877)

Bydd cyfarfod hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 20FED GORFFENNAF, 2023** am **3.00 PM.**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 18 GORFFENNAF 2023, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2.** **DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3.** **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4.** **COFNODION 22.06.23**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2023 yn rhai cywir.

**7 - 12**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5.** **CAIS RHIF: 22/1305**

Gosod llain galed yn yr ardd gefn a'r gwaith cysylltiedig er mwyn creu pafin ag ymylon isel oddi ar Heol yr Eglwys
**13 CILGANT CONWY, TON-TEG, PONTYPRIDD, CF38 1HP.**

**13 - 22**

**6.** **CAIS RHIF: 22/1375**

Cais cynllunio amlinellol, gyda phob mater wedi'i gadw, ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig.
**Y TIR CYFERBYN Â 6-8 HEOL BRYNMAIR, GODREAMAN, ABERDÂR, CF44 6LR**

**23 - 40**

**7.** **CAIS RHIF: 23/0360**

Parhau i'w ddefnyddio fel gardd.
**TŶ DEWI SANT, HEOL CASTELLAU, BEDDAU, PONTYPRIDD, CF38 2RA**

**41 - 46**

**8.** **CAIS RHIF: 20/1056**

Adeiladu adeilad cynaliadwy i'r gymuned (sydd ddim ar y grid) ar goetir,

gan gynnwys ystafell ddosbarth, cyfleusterau lles, llwybr mynediad, cyfleuster cynhyrchu ynni ar y safle (tyrbin gwynt a phaneli ffotofoltaig) a system ddraenio i gefnogi gwaith cyflawni prosiect partneriaeth De Cymru mewn perthynas ag Adfer Mandiroedd. (Derbyniwyd Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth ar 5 Mehefin 2023)
**COETIR I'R GOGLEDD DDWYRAIN O FAES PARCIO HENDRE'R MYNYDD, ODDI AR FFORDD Y RHIGOS, TREHERBERT**

**47 - 60**

**9. CAIS RHIF: 22/1474**

Adeiladu adeilad deulawr ag 16 ystafell wely sy'n darparu gofal dan oruchwyliaeth gyda chyfleusterau parcio cysylltiedig a man storio sbwriel - dosbarth defnydd C2. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 06/03/23).
**HEN GARTREF GOFAL NYRSIO GLYNCORNEL, HEOL NANT-Y-GWYDDON, LLWYNYPIA, TONYPANDY, CF40 2JF**

**61 - 78**

**10. CAIS RHIF: 23/0170**

Trosi siop ac annedd yn 2 fflat. (Derbyniwyd Cynlluniau a Disgrifiad Diwygiedig ar 09/05/2023)
**SIOP, 2 STRYD FAWR, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8BP**

**79 - 88**

**11. CAIS RHIF: 23/0506**

Dymchwel yr adeiladau presennol ac adeiladu cartref gofal preswyl arbenigol 16 gwely (dosbarth defnydd C2) gyda gwaith cysylltiedig
**Y TIR Y TU ÔL I RIF 15 AC 16 FFORDD Y RHIGOS, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9PS**

**89 - 110**

**12. CAIS RHIF: 23/0422**

Dymchwel tŷ'r gofalwr, ad-drefnu'r maes parcio/man gollwng/codi teithwyr/cilfan i fysiau, llwybrau troed, maes chwaraeon 3G, llifoleuadau, mannau chwarae newydd, peiriannau a gwaith cysylltiedig (manylion technegol diwygiedig wedi'u derbyn 01/06/2023)
**YSGOL UWCHRADD PONTYPRIDD, HEOL CILFYNYDD, CILFYNYDD, PONTYPRIDD, CF37 4SF**

**111 - 128**

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

**13. CAIS RHIF: 22/1464**

Estyniad unllawr i ochr yr adeilad, estyniad deulawr i ochr yr adeilad, patio uchel y tu cefn i'r adeilad a gwaith cysylltiedig.
**16 STRYD Y BRYN, HENDREFORGAN, Y GILFACH-GOCH, PORTH, CF39 8TW**

**129 - 138**

**CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO**

**14. CAIS RHIF: 22/0273/10**

Newid defnydd o dafarn i 4 annedd (Derbyniwyd y Nodyn Trafnidiaeth ar 4 Gorffennaf 2022, derbyniwyd y Strategaeth Draenio Dŵr Aflan ar 2 Chwefror 2023).
**TAFARN 'THE BARN', HEOL MEISGYN, MWYNDY, PONT-Y-CLUN, CF72 8PJ**

**139 - 162**

**15. CAIS RHIF: 22/0668/10**

Trosi eglwys yn 11 fflat. Derbyniwyd yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar 11 Gorffennaf 2022, derbyniwyd yr Asesiad o'r Effaith Ecolegol ar 20 Medi 2022)
**EGLWYS GYNULLEIDFAOL YSTRAD, 1 HEOL YR EGLWYS, TONPENTRE, CF41 7AD**

**163 - 180**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**16. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod /2018 a /2018.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**181 - 194**

**17. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad: -**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd W Lewis)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd A Dennis, Y Cynghorydd S Emanuel,
Y Cynghorydd D Grehan, Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd M Powell,
Y Cynghorydd J Smith, Y Cynghorydd L A Tomkinson and Y Cynghorydd R Williams

Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Uwch Beiriannydd